CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Mae Adran 16 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn mynnu bod y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â'r Canllawiau Statudol. Mae'r Cylch Gorchwyl ar sail Pennod 3 o'r Canllawiau Statudol.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

Swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd yw:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd
- Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, i'r cyngor llawn am y materion hyn.
- Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau

Aelodaeth

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod a benodir gan y Cyngor.

Cadeirydd

Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd ddinesig yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2 Rhan 2 y Cyfansoddiad).

Cyfethol

Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

Is-bwyllgorau

Caiff y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn a dirprwyo swyddogaethau iddynt.

Bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd unrhyw is-bwyllgor.

Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau

Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bŵer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno'i wahodd hefyd. Os bydd gofyn i aelod neu swyddog ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn llys barn.

Mynediad at wybodaeth

Mae Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 y Cyfansoddiad.

Pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod unrhyw flwyddyn ddinesig.

Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am

gyfarfod.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn.

Canllawiau Llywodraeth Cymru
Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni'i swyddogaethau.

Adroddiadau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn pen tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.